Trosolwg o'r Datblygiad

Pwy fydd yn ystyried y cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu Sain Tathan?
Mi fydd cais cynllunio ar gyfer yr Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod yn cael ei gyflwyno i Gyngor Bro Morgannwg.

Pa bryd fydd y datblygiad yn cychwyn?
Ein disgwyliadau ar hyn o bryd yw y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yng Ngwanwyn 2009 i Gyngor Bro Morgannwg.

Yn amodol ar ddiogelu'r caniatâd angenrheidiol, disgwylir y bydd cyfnod adeiladu'r Academi Dechnegol Amddiffyn, Parc Busnes Awyrofod a'r seilwaith cysylltiol yn cymryd rhwng tair a phedair blynedd i'w cwblhau, gyda'r gobaith o dderbyn yr hyfforddeion cyntaf i'r Academi yn 2014.

Faint fydd y gost o adeiladu Academi Dechnegol Amddiffyn?
Datblygiad yr Academi Dechnegol Amddiffyn fydd un o'r cytundebau Menter Cyllid Preifat (PFI) mwyaf hyd yn hyn; gwerth tua £12 biliwn. Mae hyn yn cynnwys y gwaith adeiladu a chostau cynnal cyfredol yr Academi. Tua £700m fydd y gost o adeiladu'r stad yn Sain Tathan.

Paham nad yw ardal 'Cyfleusterau Chwaraeon Ychwanegol Posibl' sy'n ymddangos ger Llanilltud Fawr ar y cynllun drafft, yn cael ei lleoli ar safle presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan?
Mae ffiniau'r datblygiad arfaethedig yn eithaf tebyg i'r hyn sy'n ymddangos yn y Briff Datblygu a gymeradwywyd yng Ngorffennaf 2006 ac mae'r mwyafrif o'r datblygiad yn syrthio o fewn safle presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan. Mae trafodaethau eisoes ar waith gyda'r rheini sydd â diddordeb, i brynu unrhyw dir ychwanegol sydd ei angen.

Mae'r 'cyfleusterau chwaraeon ychwanegol posibl' wedi eu lleoli yn y man a ddengys gan eu bod nhw'n rhy eang i'w gosod o fewn ffiniau'r prif safle. Yn ogystal â hyn, mae angen eu darparu mewn ardal a fydd yn hygyrch iawn i'r Academi a'r gymuned ehangach er mwyn gwneud rhannu'r cyfleusterau yn gysyniad dichonadwy.

A fydd yna gynnydd ym maint yr heddlu i gymharu â'r cynnydd yn y boblogaeth leol?
Mi fydd yna bresenoldeb priodol gan heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gysylltiedig â'r Academi Dechnegol Amddiffyn.

Cludiant

A oes yna bosibilrwydd o orsaf trên yn Sain Tathan?
Rhoddwyd ystyriaeth i adfer gorsaf drên Sain Tathan. Fodd bynnag, gan fod y pellter o'r hen orsaf drên yn Sain Tathan i brif fynedfa arfaethedig yr Academi Dechnegol Amddiffyn yr union fath â'r pellter o orsaf Llanilltud Fawr i'r brif fynedfa arfaethedig, teimlir mai Llanilltud Fawr yw'r lleoliad gorau am orsaf leol i wasanaethu'r safle.

Yn ogystal â hyn, mi fyddai'n annhebygol iawn y byddai Network Rail neu unrhyw rhai o'r Cwmnïau Trên yn cefnogi gorsaf ychwanegol heb gau'r orsaf bresennol ar yr un llinell. Ni ystyrir gorsafoedd Y Rhws na Llanilltud Fawr yn orsafoedd sy'n addas i'w cau.

Er mwyn cefnogi'r cynnydd posibl yn y nifer sy'n defnyddio'r trên i gyrraedd yr Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod, mae yna gynlluniau i gynyddu amlder y trenau sydd yn mynd a dod i orsaf Llanilltud Fawr. Byddai modd ategu at hyn drwy ddarparu gwasanaeth bws gwennol rhwng Llanilltud Fawr a'r safle.

Pa gynigion sydd ar y gweill gyfer y Cynllun Teithio Gwyrdd?
Mi fydd Cynllun Teithio Gwyrdd yn cael ei ddatblygu yn ei dro a'i gyflwyno gyda'r cais cynllunio yng Ngwanwyn 2009. Mae hyn yn debygol o gynnwys nifer o fesurau i ostwng y defnydd o geir, er enghraifft, drwy annog personél y safle i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Pryd ydych chi'n bwriadu trafod cynigion gyda'r Awdurdod Lleol a chwmnïau cludiant cyhoeddus?
Mae tîm prosiect Sain Tathan, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, eisoes wedi dechrau cynnal trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol ac mi fydd yna drafodaethau parhaol drwy gydol y broses cynllunio. Mi fydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r cwmnïau cludiant cyhoeddus.

A fydd y ffordd fynediad newydd yn cael ei hadeiladu cyn i'r gwaith adeiladu pennaf gychwyn?
Cynhelir trafodaethau manwl gyda'r awdurdod priffyrdd lleol yn ei dro er mwyn cytuno pa bryd bydd angen pob elfen o'r gwelliannau arfaethedig.

Mi fydd ceisiadau cynllunio ar gyfer ailddatblygu Sain Tathan yn cynnwys cynigion ar gyfer mesurau ailosod ar gyfer traffig adeiladu sy'n cael ei greu gan y cynigion datblygu.

A ydych chi'n ymgynghori â'r tîm cynllunio a luniodd asesiad cadwraeth Llancatal?
Mae tîm prosiect Sain Tathan yn cysylltu'n barhaol â thîm cynllunio Cyngor Bro Morgannwg, sydd â swyddogion sy'n gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â chadwraeth adeiledig gan gynnwys y mwyafrif o bentrefi lleol, yn cynnwys Llancatal, sydd yn ardaloedd cadwraeth dynodedig.

A fedrech chi gynyddu lled y ffordd ar y gyffordd i Lancatal a Ffwl-y-mwn i gynnwys lôn ddynodedig er mwyn troi i'r dde i mewn i Ffwl-y-mwn?
Ar hyn o bryd does yna ddim cynlluniau i gynnal unrhyw waith ar y gyffordd hon.

Faint o gynnydd fydd yn lefelau'r traffig fydd yn mynd a dod o'r Academi?
A chwblhawyd arolwg i bennu maint y traffig sy'n defnyddio'r lôn trac sengl o Sain Tathan i'r Bont-faen, a Ffordd Eglwys Brewis, a rhagamcan o effaith y datblygiad newydd ar y ffyrdd dan sylw?
Fel rhan o'r broses cynllunio, mi fydd yna asesiad trafnidiaeth lawn yn cael ei chynnal. Mi fydd yr asesiad yn cynnwys arolygon o gyfanswm presennol y traffig ac mi fydd y cynnydd yn y traffig a rhagwelir yn yr ardal amgylchynol yn cael ei fodelu er mwyn darparu rhagamcanion i bennu effaith y datblygiad newydd ar ffyrdd lleol. O ganlyniad darganfyddiadau'r asesiad trafnidiaeth, fe gymerir mesurau priodol i leihau'r effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Paham na all y brif fynedfa i'r safle fod o'r de ar y B4265?
Mi fydd y brif fynedfa i'r Academi Dechnegol Amddiffyn drwy ffordd fynediad a chyffordd newydd a adeiledir o'r B4265 er mwyn sicrhau bod gan y drafnidiaeth sy'n mynd a dod i'r safle fynediad ar wahân i'r ffordd fawr Pe byddai'r brif fynedfa i'r safle yn dod o'r de, byddai angen i drafnidiaeth groesi'r llinell rheilffordd a'r rhedfa er mwyn ei wneud yn opsiwn dichonadwy.

Fodd bynnag, mae yna gynigion i greu mynediad i ardal ddeheuol y parc Busnes Awyrofod, wedi ei leoli i'r de o'r rhedfa, o'r B4265.

Ai nod yn unig ac nid amod yw hi i ostwng mynediad drwy bentref Sain Tathan?
Cyn belled â phosib, y bwriad yw cynllunio cyffyrdd mynediad i'r Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod er mwyn atal symudiadau traffig yn ôl ac ymlaen i bentref Sain Tathan. Cytunir ar fanylion y cynlluniau terfynol yn ôl cais yr awdurdod priffyrdd lleol.

Cyflogaeth

Fedrwch chi ddarparu rhagamcan o nifer y swyddi newydd fydd yn cael eu creu ar gyfer yr Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod?
Ar adeg mor gynnar yn natblygiad y prosiect, mae'n anodd iawn i ni roi manylion penodol ynglŷn â'r mathau a nifer y swyddi fydd yn cael eu creu gan yr Academi Dechnegol Amddiffyn - er enghraifft, tan ein bod ni mewn sefyllfa i ofyn, ni fyddwn yn gwybod faint o gyflogeion presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn fydd yn adleoli i Sain Tathan. Fodd bynnag, mae'r ffigwr terfynol yn debygol o fod yn rhai miloedd a hynny'n cynnwys cyflogeion presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n trosglwyddo i Sain Tathan, a swyddi a fydd yn cael eu creu'n lleol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod gan y Parc Busnes Awyrofod y potensial i greu tua 2,000 o swyddi.

A fydd yna swyddi ar gael ar gyfer y boblogaeth leol? Pa fath o swyddi fydd yn cael eu creu?
Fel rhan o'n strategaeth cyflogaeth, rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda nifer o gyrff a mudiadau i sicrhau bod y gymuned leol a rhanbarthol mewn sefyllfa dda i gymryd mantais o'r cyfleoedd cyflogi y bydd yn cael eu creu yn sgil y datblygiad. Er enghraifft, rydym wedi datblygu cysylltiadau cadarn gydag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn rheoli ein perthnasau gyda sefydliadau academaidd blaenllaw De Cymru, gan gynnwys UWIC, Prifysgol Caerdydd, Coleg Y Barri a Phrifysgol Morgannwg. Er mwyn cynorthwyo'n trafodaethau gyda'r sefydliadau hyn, rydym wedi nodi'r gwahanol fathau o swyddi a fydd yn cael eu creu.

Hefyd, rydym yn awyddus i annog cyflogeion lleol lle'n bosibl ac mae nifer o fentrau eisoes dan ystyriaeth, er enghraifft, creu 'siop swyddi' lleol er mwyn hysbysebu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Yr Amgylchedd

A fydd yna ddefnydd o dyrbinau gwynt a phaneli solar ar gyfer gwresogi?
Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cael eu hystyried, ond ar hyn o bryd does yna ddim cynlluniau i osod tyrbinau gwynt na phaneli solar ar y safle. Fodd bynnag, er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion ynni mewn modd cynaliadwy, mi fydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys Canolfan Ynni sy'n ymgorffori generadur biomas a fyddai'n cael ei danio'n rhannol gan sglodion coed, gan ostwng allyriadau carbon o ryw 30 a 60 y cant y flwyddyn i'r Academi Dechnegol Amddiffyn.

Pa ardal o dir fydd ei angen i gartrefu'r Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod? Sut gostyngir ei effaith ar yr amgylchedd?
Mae ffiniau'r datblygiad arfaethedig yn eithaf tebyg i'r hyn sy'n ymddangos yn y Briff Datblygu a gymeradwywyd yng Ngorffennaf 2006 ac mae'r mwyafrif o'r datblygiad yn syrthio o fewn safle presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan.

Mi fydd Datganiad Amgylcheddol sy'n archwilio holl agweddau o effeithiau posib y datblygiad ar yr amgylchedd lleol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno fel rhan o geisiadau cynllunio'r datblygiad. Rydym hefyd yn ymgynghori â mudiadau amgylcheddol megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wrth i ni ddatblygu'r astudiaethau amgylcheddol a chynllunio.

Mi fydd cyfres sylweddol o fesurau yn cael eu gweithredu i sicrhau'r effeithiau lleiaf posib ar fywyd gwyllt a bydd y cynefinoedd newydd a ddarperir o'r safonau uchaf. Mi fydd y datblygiad

arfaethedig yn cynnwys nifer o feysydd glas, nifer ohonynt wedi eu tirlunio. Mi fydd cyfres o byllau newydd a chynefinoedd cysylltiol yn cael eu creu, gan ddarparu hafan i fywyd gwyllt a chynefin delfrydol ar gyfer y boblogaeth bresennol o fadfallod cribog.

Yn ogystal â hyn, mi fydd cyfres o bolisïau amgylcheddol yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys un o gynlluniau ailgylchu a chompostio mwyaf sylweddol ar unrhyw ddatblygiad modern. Mi fydd modd o ddargadw dŵr ar y safle yn cael ei gyflwyno i reoli'r hyn sy'n rhedeg oddi ar y wyneb, ac mi fydd strategaeth lleihau gwastraff yn sicrhau bod rwbel o'r cyfnod dymchwel yn cael ei ailddefnyddio fel defnydd adeiladu ac i dirlunio'r safle.

Tai

Faint o dai fydd yn cael eu hadeiladu er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n symud i'r ardal am resymau cyflogaeth? A fydd modd defnyddio tai presennol?
Mi fydd Lletyau i'r Sengl, yn bennaf ar gyfer hyfforddeion yn cael eu darparu ar y safle. Yn ogystal â hyn, mi fydd hyd at 550 o dai yn cael eu hadeiladu i ddarparu lletyau i deuluoedd personél yn ystod eu harhosiad. Mi fydd y cynlluniau o safon uchel ac yn ategu at yr ardal leol. Mae nifer o safleoedd posib yn yr ardal yn cael eu hystyried a'u hasesu o ran eu haddasrwydd.

Wrth ddarparu tai newydd, rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw letyau presennol i deuluoedd gwasanaeth sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hyn.

A fydd unrhyw dai yn cael eu darparu i ymdopi â chynnydd ym mhoblogaeth personél eraill (sydd ddim yn gwasanaethu) sy'n symud i'r ardal am resymau'n ymwneud â gwaith?
Does yna ddim cynlluniau penodol i ddarparu tai ychwanegol i bersonél nad ydynt yn y gwasanaeth milwrol ac sy'n gweithio yn yr Academi Dechnegol Amddiffyn neu'r Parc Busnes Awyrofod. Bydd yr angen am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei asesu gan Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r broses cynllunio arferol. Yn ogystal â hyn, mae LlCC yn cynnal astudiaethau blynyddol er mwyn sicrhau bod yna gyflenwad parhaus o dai am bum mlynedd.

A fyddai'r gwaith adeiladu yn cael ei osod ar dendr i adeiladwyr tai cenedlaethol?
Mae nifer o opsiynau caffael yn cael eu harchwilio er mwyn cwblhau Lletyau'r Teuluoedd Gwasanaeth. Ei osod ar dendr i adeiladwyr tai cenedlaethol yw un o'r opsiynau hyn.

A rhoddwyd ystyriaeth i gynigion Llandow Newydd?
Mae astudiaeth ragarweiniol a gynhaliwyd gan Defence Estates wedi adolygu'r holl ddatblygiadau tai masnachol posib o fewn pellteroedd cymudo derbyniol o Sain Tathan. Defnyddir y wybodaeth hon yn yr Astudiaeth Asesu a'r Gwerthusiad Buddsoddi wrth bennu'r opsiwn caffael mwyaf cost effeithiol a gwerth am arian wrth ddarparu Lletyau i Deuluoedd Gwasanaeth.

A fydd yna dir yn cael ei brynu'n orfodol er mwyn hwyluso'r broses o adeiladu'r tai ychwanegol?
Nid oes yna unrhyw newidiadau i ffiniau'r datblygiad i'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y Briff Datblygu a gymeradwywyd yng Ngorffennaf 2006 ac mae'r mwyafrif o'r datblygiad yn syrthio o fewn safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn bresennol yn Sain Tathan. O ran anghenion yr Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod, mae trafodaethau eisoes ar waith gyda'r rheini sydd â diddordeb, i brynu unrhyw dir ychwanegol sydd ei angen.

Yn nhermau tai, mae'r tir a ystyrir yn flaenoriaeth yn eiddo i, neu'n cael ei rheoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac fe'i cyflwynwyd i Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r Astudiaeth Gwmpasu. Os ceir bod hyn yn annigonol neu'n anaddas, ystyrir opsiynau eraill i gyflawni

hyn, sef y defnydd o safleoedd masnachol sydd ar gael, fel rhan o'r Astudiaeth Lletyau i Deuluoedd Gwasanaeth a gynhelir gan Defence Estates.